



CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

CYMRAEG AIL IAITH

HAF 2012

RHAGARWEINIAD

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Haf 2012 TGAU CYMRAEG AIL IAITH. Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgrïptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.

UNED 1

C.1 (Sylfaenol) 3 x 1 marc = 3 marc

- (i) Ticiwch 3 gweithgaredd o'r lluniau isod i roi ar webyfr ar gyfer eich ffrindiau.



canwio



defnyddio camera
fideo



pysgota o gwch

- (ii) Ysgrifennwch baragraff **yn Gymraeg** gan roi'r wybodaeth isod am drip Clwb Cymraeg Llanfynydd i Ganolfan Antur.

9 x 1 = 9 marc

Trip y Clwb Cymraeg: Ble? – **Canolfan Antur / Canolfan Penllyn [1]**
Dyddiad? – **Mai 19 [1] (dydd Sadwrn – 0 marc)**

Bws yn mynd: O ble? – **Neuadd y Dref [1] Neuadd [0]**
Faint o'r gloch? – **hanner awr wedi saith [1]**

Beth sydd eisiau? – (i) **dillad glaw [1] dillad [0]**
(ii) **esgidiau cerdded [1] esgidiau [0]**

Gwneud ar y cyfrifiadur? (i) **(dysgu) enwau adar [1]**
(ii) **(cael) gwers ddringo [1]**

Pris y trip? – **Un deg dau punt [1]**

3 marc iaith

1 – 3 ateb cywir – 1 marc

4 – 6 ateb cywir – 2 marc

7 – 9 ateb cywir – 3 marc

C.2 (Sylfaenol)

Mae eich athrawon Cymraeg eisiau i chi ysgrifennu tudalen ar gyfer cylchgrawn yr ysgol.

Cynnwys

5 marc am gyflwyno 5 ffaith yn ddealladwy ond heb o reidrwydd fod yn gwbl ramadegol gywir.

Chwaraeon rydych chi'n hoffi a ddim yn hoffi. Pam?

Fy hoff seren o Gymru. Disgrifiad. Pam?

Mynegiant

5 marc – 1 marc yr un am bob cystawen gywir wahanol.

Dw i'n / Rydw i

Dw i ddim yn/ Dydw i ddim

Fy hoff ydy

Mae

Mae'n well/ gas gyda / gen i

Mae llygaid glas gyda fe/ hi

Es i/ Ces i/ Chwaraeais i

- (i) Llenwch y proffil am George North yn Gymraeg.
Geni **King's Lynn / Norfolk / Lloegr [1]**
Siarad Cymraeg – Gyda phwy? **Mam / plant / athrawon ysgol [1]** Ble? **Ysgol / adre/ Llangefni [1]**
Hoff chwaraeon (i) **rygbi** (ii) **golff [1]** (iii) **pêl-droed [1]** (iv) **beicio (mynydd) [1]**
Hoff ffilmiau (i) **comedi [1]** (ii) **antur [1]**
Cas ffilmiau (i) **arswyd [1]**
Hoff fwyd (i) **Sbageti Bolognese (mam) [1]** (ii) **cinio Nadolig (dad) [1]**
Dechrau chwarae rygbi – (i) oed? **unarddeg [1]** (ii) Ble? **clwb rygbi / Llangefni [1]**
Pam dechreuodd George chwarae rygbi? **achos roedd ei frawd (a'i ffrindiau) wedi mwynhau y gêm (yn fawr) / achos roedd ei frawd /ffrindiau yn dweud eu bod wedi cael hwyl [2]**
hoffi chwarae rygbi [0]
Ysgol Llanymddyfri yn wahanol i Fodedern. Sut? (i) **cysgu yn yr ysgol [1]** (ii) **chwarae rygbi bob dydd [1]**
Chwarae yn erbyn De Affrica (i) Ble? **Stadiwm y Mileniwm [1]** (ii) Sgorio sawl cais? **2 / Dau [1]**
Pwy sy wedi ei helpu yng nghlwb Llanelli? (i) **Marc Jones [1]** (ii) **Stephen Jones [1]**
Yn mwynhau beth am rygbi (i) **mynd i'r gampfa / codi pwysau / gwneud ei gorff yn gryf [1]** (ii) **chwarae ar yr asgell/ mwynhau sgorio cais/ rhedeg a sgorio [1]**
Ddim yn mwynhau am rygbi **Cael anafiadau / brifo [1] poenus [0]**
- (ii) Ysgrifennwch **ddwy** frawddeg yn Gymraeg yn y **3ydd person** yn rhoi **dwy ffaith** am beth mae George yn ddweud yn y cyfweiliad am Gwpan y Byd. **[6]**
Rhaid i'r brawddegau fod yn ffeithiol gywir cyn y gellir dyfarnu marc.
3 marc am frawddeg gywir + 3ydd person e.e.
Mae George North yn cofio sgorio dau gais (yn erbyn Namibia)
Mae e'n torri'r record o fod y chwaraewr ifanca i sgorio cais yng Nghwpan y Byd
Mae e'n meddwl am y gêm yn erbyn Ffrainc (a'r siom o golli 9 i 8)
Mae'r tîm yn hapus iawn gyda'u perfformiad yng Nghwpan y Byd
Hoffai e fynd i Seland Newydd eto
2 farc am elfen gref o gywirdeb sy'n cynnwys ymdrech deg i ddefnyddio'r 3ydd person.
George North yn sgorio dau gais (yn erbyn Namibia)
Mae torri'r record o fod y chwaraewr ifanca i sgorio cais yng Nghwpan y Byd
Hoffai e Seland Newydd eto

C.2 (Uwch)
C.4 (Sylfaenol)

Rydych chi wedi dathlu eich pen-blwydd dros y penwythnos ac rydych chi yn rhoi'r lluniau isod ar eich gweblyfr. **20 marc**

Cynnwys 10 marc
5 llun x 2 farc yr un + 10 marc
Dylid cyfeirio at y lluniau.

2 farc am bob llun.

Disgwylir o leiaf 3 brawddeg am bob llun.

1 marc am gyflwyno ffaith gyfathrebol gywir wedi ei chyflwyno mewn brawddeg.

Rhaid i'r amser ar y llun fod yn gywir i wobrwyo'r marciau ond gellir gwobrwyo gweddill y frawddeg os yw'n berthnasol.

Mynegiant 10 marc

Gwobrwyr:

- (a) y gallu i gyfathrebu'n ystyrion.
- (b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas e.e. cymalau rheswm.
- (c) y gallu i ddefnyddio'r ferf ac amser y ferf yn briodol.
- (ch) y gallu i ddefnyddio cystrawen ffurfiol.
- (d) geirfa addas sy'n cyfrannu at gyfathrebu ystyrion llwyddiannus.
- (dd) bydd y rwbric yn rhoi peth cymorth i'r ymgeisydd a gwobrwyr y gallu i'w ddefnyddio'n ystyrion.

- 10 – 9 Cyfathrebu llwyddiannus, cystrawen sicr, geirfa dda, syniadau pwrpasol, diddorol, rhediad naturiol a defnydd cywir (ar y cyfan) o amser y ferf, ymatebion cywir ar y cyfan.
- 8 – 7 Ymatebion pwrpasol, diddorol, rhai camgymeriadau cystrawennol, geirfa eitha da. Ymdrech i ddefnyddio amser priodol y ferf ac yn llwyddiannus fel arfer. Cyfathrebu ystyrion a defnydd gweddol gywir o iaith.
- 6 – 5 Canolig – yn llwyddo i gyfathrebu er bod camgymeriadau iaith. Ar y cyfan nid yw'r camgymeriadau yn cymylu'r ystyr. Geirfa ddigonol i gyflawni'r dasg. Ddim yn uchelgeisiol ond yn cynnwys y rhan fwyaf o'r pwyntiau.
- 4 – 3 Is na'r canolig ond yn llwyddo i gyfathrebu mewn manau.
- 2 – 1 Y dasg yn ormod iddynt.
- 0 Dim i'w wobrwyo.

C.3 (Uwch)

- (i) Darllenwch beth mae Iwan a Rhiannon wedi ysgrifennu mewn cylchgrawn newydd i bobl ifanc. Mae gan Iwan a Rhiannon bethau da a phethau negyddol i ddweud am y 3 phwnc. Llenwch y gridiau **yn Gymraeg**.

Iwan

Gwyliau

- Hoffi nawr (Gwyliau gyda'r) Clwb leuenctid/ gwyliau antur [1]
- Pam? (Achos dw i'n) hoffi gwyliau antur/ (dw i'n) gallu gwneud llawer o weithgareddau antur/ fel dringo, canwio a chysgu mewn pabell [1]
- Ddim yn hoffi nawr (Gwyliau gyda'r) ysgol [1]
- Pam? (Achos mae'r) athrawon yn llym/ (dydych chi) ddim yn gallu ymlacio a chael hwyl [1]

Gwaith rhan-amser

- Pethau mae e'n hoffi Cael (arian) tri deg punt yr wythnos/ rownd bapur [1]
 - Pam? I gael tocyn awyren (i deithio rownd y byd)/ (yn cael) tri deg punt yr wythnos [1]
 - Pethau dydy e ddim yn hoffi (Rhaid) codi am hanner awr wedi chwech bob dydd/ (mae e) wedi blino erbyn dydd Sul [1]
 - Pam? Wedi blino gormod weithiau i wneud fy ngwaith ysgol gyda'r nos/ codi am hanner awr wedi chwech [1]
- (Ni ellir gwobrwyo dau farc am yr un ateb yma)*

Siarad Cymraeg

- Pethau da (Yn hoffi) siarad gyda ffrindiau/ defnyddio'r Gymraeg/ siarad Cymraeg bob dydd [1]
teulu yn siarad Cymraeg [0]
- Pam? (Mae) eisiau cadw'r iaith yn fyw/ bwysig defnyddio'r iaith [1]
- Pethau negyddol (ddim yn hoffi siarad Cymraeg gyda) hen bobl [1]
- Pam? (Achos) dydy Iwan ddim yn eu deall nhw'n siarad Cymraeg/ maen nhw'n siarad Cymraeg hen ffasiwn [1]

Rhiannon

Gwyliau

- Hoffi nawr (Gwyliau gyda) ffrindiau [1]
- Pam? (Yn cael) mynd i'r disgo/ gwrando ar y bandiau gyda'r nos [1]
- Ddim yn hoffi nawr (Gwyliau gyda'r) teulu [1]
- Pam? (Achos mae ei) brawd a chwaer bach eisiau gwneud pethau plant bach/ brawd a chwaer ddeg mlynedd yn ifancach [1]

Gwaith rhan-amser

- Pethau mae hi'n hoffi Gweithio ar y til (yn Tesco)/ cael cyfle i ddatblygu sgiliau newydd [1]
- Pam? Cyfle i ddatblygu sgiliau newydd/ defnyddiol iawn ar gyfer CV [1]
- Pethau dydy hi ddim yn hoffi Gweithio yn adran llysiâu a ffrwythau [1]
- Pam? Achos mae'r bagiau o datws yn drwm/ a budr [1]

Siarad Cymraeg

- Pethau da (Yn hoffi) siarad Cymraeg/ yn y dosbarth/ gyda'r athrawes [1]
- Pam? Achos rydw i'n Gymraes a Chymraeg ydy iaith Cymru [1]
fy athrawes [0]
- Pethau negyddol Siaradwr Cymraeg ddim yn siarad Cymraeg gyda fi [1] **Rhaid cael siaradwr Cymraeg** nhw ddim yn fodlon siarad Cymraeg gyda fi [0]
- Pam? Gwneud i mi deimlo fy mod i ddim cystal Cymraes â nhw [1]

(ii) Dewiswch beth ydych chi'n meddwl ydy'r pwynt gorau yn y darnau a rhowch eich rhesymau personol chi am eich dewis. **3 marc**

(iii) Dewiswch y pwynt dydych chi ddim yn hoffi yn y darnau a rhowch eich rhesymau personol chi am eich dewis. **3 marc**

Rhaid cael cynnwys dilys cyn y gellir gwobrwyo o gwbl.

3 marc – ymateb gydag elfen gref iawn o gywirdeb.

2 marc – ymateb gydag elfen gref o gywirdeb.

C.4 (Uwch)

Ysgrifennwch ar **un** o'r canlynol (tua 150 o eiriau).
*Write on **one** of the following (about 150 words).*

20 marc

- (i) Gwaith elusennol – gwerthfawr neu wastraff amser.
- (ii) Fy ardal i – lle gwych i bobl ifanc.
- (iii) Mae Sêr Cymru bob amser yn **codi proffil Cymru** yn y byd.

10 marc

Cynnwys

Gwobrwyir:

- (a) ymatebion diddorol a chymwys ynghyd â rhesymau lle'n briodol
- (b) dilyniant rhesymegol i'r syniadau a'r farn
- (c) ymdriniaeth ddiddorol a chynhwysfawr o'r testun
- (ch) ymdrech i fod yn uchelgeisiol o ran syniadau ac ymatebion

- 10 – 9 Ymdriniaeth hynod o hyderus. Yn gallu ymateb i'r dasg yn glir a phendant iawn gyda syniadau uchelgeisiol ac aeddfed a'r gallu i ymresymu'n glir a pherthnasol. Yn ymdopi â gofynion y dasg yn llwyddiannus iawn.
- 8 – 7 Ymdriniaeth hyderus. Yn gallu mynegi barn yn glir a phendant gyda rhai rhannau uchelgeisiol a'r gallu i ymresymu'n glir. Yn ymdopi â gofynion y dasg yn llwyddiannus.
- 6 – 5 Ymdriniaeth eithaf hyderus. Yn gwneud ymdrech i ymateb yn eithaf clir gyda rhai rhannau da. Cynllun a dilyniant amlwg i'r gwaith. Rhai rhannau gwell na'i gilydd.
- 4 – 3 Yn llwyddo i ymdopi â'r dasg ar lefel gyffredin ond derbyniol. Yn llai uchelgeisiol na'r uchod a'r ymatebion yn aros ar lefel sylfaenol.
- 2 – 1 Diffyg patrwm i'r gwaith ond gellir gwobrwyo ambell beth yma ac acw.
- 0 Dim byd i'w wobrwyo.

Mynegiant

10 marc

Gwobrwyir:

- (a) y gallu i ymateb yn llwyddiannus
 - (b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas
 - (c) geirfa addas a chymwys i ddelio â'r testun
 - (ch) cywirdeb ac ymdrech i ymgynraedd at gysondeb o ran amserau'r ferf
 - (d) ymdrech i greu naws ac awyrgylch priodol trwy ddefnyddio idiomau, cymariaethau a.y.b. ac efallai elfen o hiwmor.
 - (dd) ymdrech i argyhoeddi a pherswadio ynglŷn â barn a syniadau
- 10 – 9 Mynegiant hynod o ystwyth a hyderus, gan ddefnyddio amrywiaeth dda o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion eang a chyfoethog sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrion a llwyddiannus iawn. Efen gref iawn o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir.
- 8 – 7 Mynegiant ystwyth a hyderus gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa eang sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrion a llwyddiannus. Efen dda o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir.
- 6 – 5 Mynegiant derbyniol gan ddefnyddio peth amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion da iawn sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrion. Efen eithaf da o gywirdeb gan ddefnyddio rhai ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir.
- 4 – 3 Ymdrech i ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion eitha da ac yn gwneud ymdrech i fynegi barn. Ansicrwydd yma ac acw gyda ffurfiau berfol. Rhannau byr yn ein hargyhoeddi.
- 2 – 1 Yn cael trafferth i ddefnyddio patrymau brawddegol yn gywir. Geirfa gyfyngedig a defnydd anghywir o ffurfiau berfol yn aml.
- 0 Dim i'w wobrwyo.

UNED 4

C.1 (Sylfaenol)

- (i) Llenwch y poster **yn Gymraeg**. **8 marc**

Dyddiad: **Gorffennaf [1] 6(ed) [1]**

I ddechrau yn y **Canolfan Bowlio Deg [1]**

Am **6.30 [1]** o'r gloch

Wedyn clwb nos enwog **Cactus Jac [1]**

Am **8.45 [1]** o'r gloch

Gwisg Ffansi: **(dillad) Chwedegau [1]**

Pris Tocyn Popeth: **£14.50/ un deg pedwar punt a phum deg ceiniog [1]**

- (ii) Ysgrifennwch e-bost byr yn ôl yn dweud **yn Gymraeg**: **2 farc**

(i) Ydych chi'n mynd neu ddim yn mynd?

(ii) Pam?

1 marc am ymateb dealladwy

1 marc ychwanegol am reswm

e.e. Dw i'n mynd i'r parti achos sbri = 2 farc

C.2 (Sylfaenol)

Ysgrifennwch **yn Gymraeg** ar gyfer gwefan yr ysgol. **15 marc**

Cynnwys **8 marc**

8 marc am gyflwyno 8 ffaith yn ddealladwy ond heb o reidrwydd fod yn gwbl ramadegol gywir.

Cywirdeb iaith **7 marc**

1 marc yr un am 4 cysrawen gywir **wahanol** = 4 marc

3 marc am 1 gystrawen gan ddefnyddio'r Gorffennol/ Amherffaith yn gywir (does dim gwahaniaeth ym mha ran mae'r amser Gorffennol/ Amherffaith

Dw i'n, Mae, Mae + gyda / gen, es i, chwaraeais i, ___ ydy ..., wrth fy modd, dwli ar

C.1 (Uwch)
C.3 (Sylfaenol)

20 marc

- (i) Ysgrifennwch yn **Gymraeg** beth mae Jonathan a Sue yn ddweud yn eu dyddiaduron am y topigau canlynol. **16 marc**

Jonathan (8 x 1 = 8 marc)

Gwaith ysgol

- (i) Adeiladu yn y wers Dylunio a Thechnoleg – **go kart**
(ii) Gwneud gyda Hanes – **(gwneud) fideo (o gastell Dolfawr) / defnyddio camera/ ffilm**

Cadw'n iach a heini – gwneud beth?

- (i) **(chwarae) rygbi / (ymarfer) rygbi**
(ii) **(mynd ar y) beic mynydd/ beicio/ mynd ar y beic**

Ysmygu. Beth mae Jonathan yn ddweud?

- (i) **Huw ddim digon ffit i chwarae rygbi (achos mae e'n ysmegu)/ Huw ddim yn ffit/ Huw yn ysmegu**
(ii) **(Llawer o) ferched (ifanc) yn ysmegu**

Yr amgylchedd – Syniadau i helpu'r amgylchedd.

- (i) **(eisiau pobl ifanc) i godi sbwriel (o'r afon)/ grŵp (o'r clwb) yn helpu i lanhau'r afon/ i lanhau'r afon**
(ii) **(eisiau) mwy o finiau sbwriel**

Llawer o sbwriel – 0 marc

Sue (8 x 1 = 8 marc)

Gwaith ysgol.

- (i) Dysgu yn y wers Gyfrifiaduron – **(sut i wneud) tudalen flaen papur newydd**
(ii) Gweld gyda Saesneg – **drama/ Shakespeare**

Cadw'n iach a heini – gwneud beth?

- (i) **(reidio) beic adref (o'r ysgol)/ reidio adref**
(ii) **bwyta salad/ bwyta ffrwythau/ salad i ginio/ ffrwythau i ginio**

Ysmygu. Beth mae Sue yn ddweud?

- (i) **ysgyfaint person sy'n ysmegu yn ofnadwy/ nyrs yn siarad am ysmegu**
(ii) **dau fachgen (wedi cael eu dal) yn ysmegu (yn y toiled)**

Yr amgylchedd – Syniadau i helpu'r amgylchedd.

- (i) **(Mae eisiau cael) paneli solar (yn yr ysgol)**
(ii) **(Mae eisiau cael) bocs ailgylchu (ym mhob dosbarth)/ bocs i gadw papur**

- (ii) Ysgrifennwch **ddwy** frawddeg yn **Gymraeg**, yn dweud beth rydych chi'n wneud sy'n debyg a/neu'n wahanol i Jonathan a/neu Sue. **4 marc**

4 marc iaith. Rhaid i'r cynnwys fod yn gywir cyn y gellir dyfarnu marciau.

2 marc = elfen dda iawn o gywirdeb.

1 marc = elfen dda o gywirdeb.

Enghreifftiau:

Mae chwarae rygbi hoffi Jonathan – 0 marc

Wneud yn Sue yn astudio cyfrifiaduron – 0 marc

Wahanol i Jonathan yn ddim yn hoffi Technoleg – 0 marc

Es i chwarae rygbi gyda ffrindiau – 1 marc

Dw i'n mynd i adref ar y beic – 1 marc

Dw i'n gwyllo Shakespeare yn y theatr – 1 marc

Dydy i ddim yn astudio Hanes – 1 marc

Rhaid cael ymdrech i ddefnyddio'r person cyntaf er mwyn gwobrwyo marc.

C.2 (Uwch)
C.4 (Sylfaenol)

30 marc

Ysgrifennwch lythyr yn Gymraeg at ddisgyblion yn ysgol Gymraeg Trelew, Patagonia.

Cynnwys

Dylid cyfeirio at y gofynion.

Soniwch am:

- (i) Eich cartref a'ch teulu. Gofynnwch gwestiynau am eu cartrefi nhw. **Hyd at 3 marc**
- (ii) Eich ysgol – eich hoff a'ch cas weithgareddau. Gofynnwch am eu hysgol nhw. Oriau ysgol, gwyliau, gwersi, dillad ysgol, ayyb. **Hyd at 5 marc**
- (iii) Penwythnos arbennig rydych chi wedi cael yn ddiweddar. (Defnyddiwch yr Amser Gorffennol). Beth wnaethoch chi? Ble aethoch chi? Pwy weloch chi? Pam bod y penwythnos yn arbennig? **Hyd at 7 marc**

Gellir gwobrwyo marciau llawn i ran (i) os oes 3 pheth ystyrion/ cyfathrebol sy'n wahanol.

Gellir gwobrwyo marciau llawn i ran (ii) a (iii) os oes 3 pheth ystyrion/ cyfathrebol sy'n wahanol.

Mynegiant

15 marc

Gwobrwyir

- (a) y gallu i gyfathrebu'n ystyrion.
- (b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas e.e. cymalau rheswm.
- (c) y gallu i ddefnyddio'r ferf ac amser y ferf yn briodol.
- (ch) y gallu i ddefnyddio cystrawen ffurfiol.
- (d) geirfa addas sy'n cyfrannu at gyfathrebu ystyrion llwyddiannus.
- (dd) bydd y rwbric yn rhoi peth cymorth i'r ymgeisydd a gwobrwyir y gallu i'w ddefnyddio'n ystyrion.

- 15 – 14 Cyfathrebu llwyddiannus, cystrawen sicr, geirfa dda, syniadau pwrpasol, diddorol, rhediad naturiol a defnydd cywir (ar y cyfan) o amser y ferf. Ymatebion cywir ar y cyfan.
- 13 – 12 Cyfathrebu eithaf llwyddiannus at ei gilydd. Geirfa a chystrawen yn caniatáu hynny ar y cyfan. Efen amlwg o gywirdeb a'r llythyr yn darllen yn rhwydd.
- 11 – 10 Ymatebion pwrpasol, diddorol, rhai camgymeriadau cystrawennol, geirfa eithaf da. Ymdrech i ddefnyddio amser priodol y ferf ac yn llwyddiannus fel arfer. Cyfathrebu ystyrion a defnydd gweddol gywir o iaith.
- 9 – 8 – 7 Canolig – yn llwyddo i gyfathrebu er bod camgymeriadau iaith. Ar y cyfan nid yw'r camgymeriadau yn cymylu'r ystyr. Geirfa ddigonol i gyflawni'r dasg. Ddim yn uchelgeisiol ond yn cynnwys y rhan fwyaf o'r pwyntiau.
- 6 – 5 Is na'r canolig ond yn llwyddo i gyfathrebu. Yn gallu defnyddio cystrawennau sylfaenol yn gywir ar y cyfan.
- 4 – 3 Yn gallu defnyddio cystrawennau syml yn gywir ac yn gallu defnyddio ambell gystrawen sylfaenol yn gywir.
- 2 – 1 Y dasg yn ormod iddynt ond gellir gwobrwyo ambell frawddeg yma ac acw.
- 0 Dim i'w wobrwyo.

Ni ellir gwobrwyo mwy na 9 marc am fynegiant os nad oes defnydd cywir o'r amser Gorffennol/ Amherffaith.

I wobrwyo 12 – 15 marc am fynegiant rhaid cael 3 cystrawen wahanol yn gywir yn yr amser Gorffennol/ Amherffaith.

C.3 (Uwch) – Iolo Williams

20 marc

- (a) Ysgrifennwch 4 ffaith am Iolo Williams cyn mynd i'r coleg.
(Pwyntiau bwled. Dim brawddegau).
Gellir gwobrwyo **1 marc** yr un am unrhyw **bedwar** o'r canlynol:
- (i) Byw wrth Lyn Fyrnwy **[1]**
 - (ii) Hoffi cerdded y Berwyn **[1]**
 - (iii) Mwynhau pêl-droed / rygbi / awyr agored **[1]**
 - (iv) Astudio Ffrangeg / Bioleg – Lefel A **[1]**
 - (v) Hoffi edrych ar natur/ adar **[1]**
 - (vi) Ddim yn dda yn gwaith ysgol **[1]**
 - (vii) Meddwl ymuno â'r fyddin **[1]**
 - (viii) Penderfynu mynd i'r coleg yn Llundain **[1]**
 - (ix) Penderfynu astudio Ecoleg **[1]**
- (b) Mae Iolo Williams wedi gwneud llawer o waith ar y radio a theledu.
Ysgrifennwch am ddau beth mae e wedi gwneud. (Pwyntiau bwled. Dim brawddegau)
Gellir gwobrwyo **2 farc** yr un am unrhyw **ddau** o'r canlynol:
- (i) wedi gwneud rhaglenni ar fywydau chwech o bobl yn Eryri **[2]**
 - (ii) wedi gwneud cyfres ar fywyd yr arth frown yn Rwsia **[2]**
 - (iii) ysgrifennu erthyglau am yr amgylchedd/ natur **[2]**
 - (iv) cyfres ar adar **[2]**
- (c) Ysgrifennwch am 4 peth mae Iolo, y teulu a phobl y pentref yn wneud i helpu'r amgylchedd.
Gellir gwobrwyo **2 farc** yr un am unrhyw **bedwar** o'r canlynol:
- (i) wedi adeiladu tŷ sy'n defnyddio llai o ynni **[2]**
 - (ii) yn ailgylchu (popeth) **[2]**
 - (iii) ei wraig yn siopa'n lleol (i arbed ynni) **[2]**
 - (iv) pobl y pentref yn rhannu ceir (i fynd i'r gwaith) **[2]**
 - (v) tyfu ffrwythau/ llysiau **[2]**
 - (vi) rhoi dillad i elusen **[2]**
- (ch) Ydych chi'n cytuno gyda beth mae Iolo Williams yn dweud am felinau gwynt a pheilonau? Pam?

2 farc = elfen dda iawn o gywirdeb.

1 marc = elfen dda o gywirdeb.

Rhaid cael dau ateb sydd ddim yn gwrth-ddweud eu gilydd. Ni ellir dyfarnu dim mwy na 1 marc os yw'r ymgeisydd wedi copïo rhan o'r ateb o'r darn darllen.

C.4 (Uwch)

Ysgrifennwch erthygl yn **Gymraeg** ar **un** o'r canlynol ar gyfer y cylchgrawn Lingo. **30 marc**

- (i) Mae dathlu ar ddiwedd arholiadau TGAU yn syniad twp achos mae pobl ifanc yn gwneud pethau dwl fel ysmegu, yfed alcohol a chymryd cyffuriau.

NENFWD O 12 MARC AM GYNNWYS A MYNEGIANT OS MAI AT 1 PWNC Y CYFEIRIR YMA. DIM NENFWD OS Y CYFEIRIR AT 2 BWNC.

- (ii) Mae technoleg wedi newid bywyd pawb heddiw.
- (iii) Sut hoffech chi weld bywyd ysgol yn newid er gwell?

Cynnwys

15 marc

Gwobrwyir:

- (a) ymatebion diddorol a chymwys ynghyd â rhesymau lle'n briodol
(b) barn bendant a synhwyrol
(c) dilyniant rhesymegol i'r syniadau a'r farn
(ch) ymdriniaeth ddiddorol a chynhwysfawr o'r testun
(d) ymdrech i fod yn uchelgeisiol o ran syniadau ac ymatebion

- 15 – 14 Ymdriniaeth hynod o hyderus. Yn gallu mynegi barn yn glir a phendant iawn gyda syniadau uchelgeisiol ac aeddfed a'r gallu i ymresymu'n glir a pherthnasol. Yn ymdopi â gofynion y dasg yn llwyddiannus iawn.
- 13 – 12 Ymdriniaeth hyderus. Yn gallu mynegi barn yn glir a phendant gyda rhai syniadau uchelgeisiol a'r gallu i ymresymu'n glir. Yn ymdopi â gofynion y dasg yn llwyddiannus.
- 11 – 10 Ymdriniaeth eithaf hyderus. Yn gwneud ymdrech i fynegi barn yn eithaf clir gyda rhai syniadau da a chynllun eithaf da i'r gwaith. Rhai rhannau gwell na'i gilydd.
- 9 – 8 – 7 Yn llwyddo i ymdopi â'r dasg ar lefel gyffredin ond derbyniol. Yn llai uchelgeisiol na'r uchod a'r farn a'r ymatebion yn aros ar lefel sylfaenol.
- 6 – 5 Yn llwyddo i ymdopi â'r dasg ar lefel sylfaenol yn unig. Ar y cyfan yn gwneud peth ymdrech i fynegi barn yn syml.
- 4 – 3 Diffyg syniadau a barn ar y cyfan ond gellir gwobrwyo ambell beth yma ac acw.
- 2 – 1 Ymdrech i ymdrin â'r dasg ar lefel arwynebol iawn yn unig.
- 0 Dim i'w wobrwyo.

Gwobrwyir:

- (a) y gallu i gyfleu syniadau a barn yn llwyddiannus
- (b) y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas
- (c) geirfa addas a chymwys i ddelio â'r testun
- (ch) cywirdeb ac ymdrech i ymgynraedd at gysondeb o ran amserau'r ferf
- (d) ymdrech i greu naws ac awyrgylch priodol trwy ddefnyddio idiomaau, cymariaethau a.y.b ac efallai elfen o hiwmor
- (dd) ymdrech i argyhoeddi a pherswadio ynglŷn â barn a syniadau

- 15 – 14 Mynegiant hynod o ystwyth a hyderus, gan ddefnyddio amrywiaeth dda o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion eang a chyfoethog sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrion a llwyddiannus iawn. Efen gref iawn o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir.
- 13 – 12 Mynegiant ystwyth a hyderus gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa eang sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrion a llwyddiannus. Efen dda o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir.
- 11 – 10 Mynegiant derbynol gan ddefnyddio peth amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion da iawn sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrion. Efen eithaf da o gywirdeb gan ddefnyddio rhai ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir.
- 9 – 8 – 7 Ymdrech i ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion da ac yn gwneud ymdrech i fynegi barn. Peth ansicrwydd gyda ffurfiau berfol ond yn ein hargyhoeddi y gallant ymdopi â'r dasg yn weddol llwyddiannus.
- 6 – 5 Yn defnyddio rhai patrymau brawddegol sylfaenol yn gywir. Ansicrwydd gyda ffurfiau berfol. Geirfa ac ymadroddion eithaf da ond ychydig iawn o syniadau ac yn cael anhawster i fynegi barn.
- 4 – 3 Yn cael trafferth i ddefnyddio patrymau brawddegol yn gywir. Geirfa weddol gyfyng a defnydd anghywir o ffurfiau berfol ar brydiau.
- 2 – 1 Ymdrech i gyfathrebu ond geirfa syml a chyfyngedig iawn.
- 0 Dim i'w wobrwyo.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau.cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk